**Cyfarfod Cyffredinol Cygor Tref Penrhyndeudraeth, 14 Tachwedd 2024,**

**7.00 yh, Ystafell sbardun y Neuadd Goffa**

***General Meeting of Cyngor Tref Penrhyndeudraeth* 14 November *2024 at 7.00 pm in the ystafell sbardun of the Neuadd Goffa***

1. **Croeso/*Welcome :*** Croesawyd pawb i'r cyngor
2. **2.1Presennol :** Sian Llywelyn (Cadeirydd), Gwyn Vaughan Jones (is-gadeirydd), Cyngh. Meryl Roberts (sylwebydd), Sarah Roberts, Nia Jones, Steven Murray (Clerc)
   **2.2 Ymddiheuriadau :** Emma Hickman.
3. **Cyfethol aelodau newydd i'r Cyngor / co-opt new members for the council :** Cyfetholwyd : Tony Owen, Ashley Jones, Roberts Edwards ac Einir Williams Croeso iddynt i gyd. / *The above 4 were co-opted. A welcome to all.*
4. **Cymeradwyo cofnodion Hydref / *Approve October minutes* :** Angen symud y wybodaeth am y diffibrilydd o adran mynwent Minffordd. / *Info on de-fibs needs to move from Mynwent Minffordd section in the minutes. Approved.* Cynigwyd gan Nia Jones, eiliwyd gan Gwyn Vaughan Jones.
5. **Datgan buddiant, cysylltiad, diddordeb/ *Declaration of interest, benefits,connection :*** Cyngh. Meryl Roberts fel aelod o bwyllgor cynllunio Parc Cenedlaethol / *Councillor Meryl Roberts as a member of the Parc Planning committee.*
6. **Adroddiad ariannol / *financial repor*t**
   *6.1* Y llyfr arian/ *cash book*

I fewn
TFW: rhent Neuadd Drefol £416.67
Hochtief: rhent maes parcio Cae Cookes £1500
O H Davies: claddu bedd newydd £2003
Cyngor Gwynedd grant biomiwriaeth £7762.39
Pritchard a Griffiths: ail agor bedd corff £902
Pritchard a Griffiths: ail agor bedd llwch £225

Allan
HSBC banc charges £5
Aled Ellis rhent swyddfa £300
British Gas trydan swyddfa £37.94
R J Electrics golau newydd nadolig llawen £2617.10
Ian Sturock & sons coed ffrwytha i'r parc £494.27
Spar top up ffôn Tachwedd £10
Rawson photocopier Chwefror - Hydref £18.98
Viking nwydda swyddfa £111.95
Dunn & Ellis paye ¼ at Medi £65.70

Yr Wylan hys-bys swydd clerc £35
Pritchard a Griffiths agor bedd i O H Davies £710
BT internet i'r swyddfa £33.54
Wicksteed: arwydd i'r cwrt peli £281.81
Steven Murray: cyflog y clerc £1318.84
Dwr Cymru: dŵr i'r swyddfa £147.69
Lily Wen torch Sul y Cofi £50
Jake Farrell: tynnu y fflagiau i lawr £100
Alan Williams: cynnal a chadw £615
Carwyn Jones: torri gwair £1220
Jewsons: white spirits a paddlock £45
Wendy Rees: hr tribunal £400
Pritchard a Griffiths: ail agor bedd si4971 £570
Pritchard a Griffiths: ail agor bedd llwch si4972 £100

7. **Eitemiau sefydlog/*Regular items***

7.1 Mynwent Minffordd *Cemetery*
Nodwyd bod cwmni torri beddi wedi dod ar draws craig wrth dyllu yn ddiweddar sy'n golygu bod llai o lefydd i feddi yn y fynwent gyfredol. Mae 18 safle ar ôl. Holwyd os oes modd tyllu'r graig. Cytunwyd i holi'r cwmni i weld be sy'n bosib. / *The grave diggers have encountered rock and have had to utilise another plot. This means that there are fewer plots in the current cemetery - 18 left. We agreed to ask the company if they are able to peck any rocks in future.*

7.2 Neuadd Drefol: Mae TFW wedi bod yn yr adeilad yn symud dodrefn dros y ffordd. Maent hefyd wedi cytuno ar lafar i roi bocs ar gyfer Trefi Smart yn yr adeilad. / *TFW have been in the building removing furniture across the road, and have agreed that Smart Towns can set up their server inside the building.*

7.3 Parc Mileniwm/ *Millennium Park :* Llongyfarchiadau i Meryl ar dderbyn y pres grant bioamrywiaeth. Mae'r coed ffrwythau wedi cael eu harchebu yn barod. Mae adroddiad Wicksteed wedi cale ei yrru i bawb gyda sgôr risg ar bob eitem. Y ffens a'r tarmac sydd angen sylw fwyaf. Mae Meryl wedi bod ar ôl Cyngor Gwynedd i holi os gaiff hi'r ffens oedd yn amglychynu tir yr Uned Iaith er mwyn llenwi bylchau yn y parc. Mae Ardudwy Drainage wedi bod yn edrych ar y culvert i weld beth yw natur y broblem ddreinio ac wedi adrodd yn ôl i'r cyngor. *congratulations to Meryl for receiving the biodiversity grant budget. the fruit trees have already been ordered. The Wicksteed report has been sent to all with a risk score on each item. The fence and the tarmac are the highest scores. Meryl has asked Cyngor Gwynedd if we can use the fence on the perimeter of the old Uned Iaith area for the park's fencing gaps. Ardudwy Drainage have been inspecting the issue with the culvert and has reported back to the council.*

7.4 Cae Cookes : Mae'r Clerc yn mynd i gysylltu efo'r dylunydd Johny Heany i weld os oes diweddariad ynglŷn â'r adroddiad dichonadwyedd / *The Clerk will contact Johny Heany for an update on the feasibility report.*

7.5 Cae Chwarae Minffordd *Playground :* Mae adroddiad Wicksteed wedi cael ei wneud. Dim sgor risg uwch na glas a gwyrdd ar yr eitemau. / *Wicksteed report has been completed. No risk worse than blue or green on all items..*

7.6 Maes y Parc : Mae cyfarfod wedi cael ei alw rhwng y clwb a'r ymddiriedolaeth yn Rhagfyr / *a meeting has been called between the club and the trustees of MAes y Parc for December.*

7.7 ffyrdd a parcio / parking and roads : Bydd y cyngh. Meryl Roberts yn holi Hochtief os oes gwybodaeth yn dod i'r cyhoedd am y gwaith ar y lôn ger y stad ddiwydiannol Griffin ar yr 21ain, fel y gall y CTP ei roi ar Facebook a hysbysyu'r cyhoedd amdano. / *Cllr. Meryl Roberts will ask Hochtief if a notification will coome soon about the road works near the Griffin Industrial Estate on the 21st*

**8. Gohebiaeth/ Correspondence**

**8.1 Cyfarfod Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian Coast Railway Liaison Meeting :** Cytunodd TO i fynd ar ran y Cyngor

**8.2 Adroddiad afiechyd coed Ynn / Ash Dieback report. F.Y.I**

**8.3 Diweddariad ar sefyllfaoedd y deffibrilydd / defibrilator :** Yn ychwanegol at y diffibrilyddion sydd ar gael yn lleol, mae MR yn mynd i holi os y bydd hi'n bosib cael un ar Maes DEudraeth (Stad newydd Canol Cae) / *in addition to the de-fibs in the area, MR will ask if it's possible to have one on site in Maes Deudraeth also (the new Canol Cae estate).*

**8.4 Is grŵp credyd pensiwn / Pension Credit Sub group : F.Y.I**

**8.5 Newyddlen Awel y Môr / Newsletter : F.Y.I**

**8.6 Nodyn Datblygu (9) Cylch Perwyl ar bwyllgorau cyngor / Practice Development Note (9) Terms of Reference for Council Meetings :** I'w ddarllen

**8.7 SARPA : Cwpan Gorsafoedd y Byd / World cup of Stations : F.Y.I**

**8.8 Cofnodion o gyfarfod SSG Trawsfynydd / Minutes from Trawsfynydd SSG : F.y.I**

**8.9 SARPA : Cofnodion cyfarfod Dydd Sadwrn Hydref 24 / Oct 24 Saturday meeting : F.Y.I**

**8.10 Ymateb i Un Llais Cymru i Ymgynghoriad Cynghorau Tref a Chymuned / O.V.W Response to the Senedd Inquiry for Community and Town Councils : F.Y.I**

**8.11 Cydweithio i warchod Plas Tan y Bwlch : Cytunodd y cyngor i gefnogi'r cais gan y grŵp cymunedol sy'n cwffio i gael y plas i ddwylo'r cyhoedd / *the council agree to write a letter of support to the group who wish to keep PTYB in public ownership.***

**8.12 Grŵp Cyswllt Cymunedol : 12 Tachwedd / Community Liaison Group : 12 November : Cafwyd adroddiad gan MR / MR reported on event**

**8.13 Digwyddiad Rhwydweithiol i ddod gyda Cymorth Cynllunio Cymru / Upcoming Network event with Planning Aid Wales. F.Y.I**

**8.14 Gŵyl Syniadau Economi Llesiant Cymru / Wellbeing Economy Cymru Festival of Ideas : F.Y.I**

**8.15 Newyddlen Mis Tachwedd a gwybodaeth i deulueodd / Gwynedd Family information Service November : FYI**

**8.16 SARPA : Y trenau cyntaf a'r olaf / First and last trains : arwyddo deiseb / petition to sign through link**

**8.17 : Unrhyw ohebiaeth sydd wedi cyrraedd yn dilyn cyhoeddi'r agenda / any correspondence that has been sent after the notice of agenda ; Un Llais Cymru - rhannwyd dyddiadau cyrsiau efo'r cynghorwyr newydd**

9. **Materion Cynllunio/*Planning Matters :***
   **C24/0727/08/DT : pasiwyd**
   **C23 / 0916 / 05 / LL : pasiwyd**
   **C24 / 0819 / 08 / LL : pasiwyd**

10. **Materion gwrth gymdeithasol / anti social matters : Rhannodd SLL pryderon aelod o'r cyhoedd am yr ymddygiad gwrth gymdeithasol sy'n digwydd yn rheolaidd yng nghefn y Royal, Cutting Gardens ac o flaen garej CapT. Cytunwyd i roi neges i fyny ar Facebook yn nodi bod yn RHAID ffonio'r heddlu bob tro mae problemau yn codi. Eglurodd MR ei bod wedi holi fwy nag unwaith i gael manylion cyswllt y PCSO newydd, ond nad ydy'r wybodaeth wedi cael ei rannu efo hi hyd yn hyn. Mae'r clwb ieuenctid wedi cael y neges hefyd. Cytunodd AJ i holi cyngor Cricieth i weld sut ddaru nhw ddelio efo'r problemau gawson nhw yno yn y gorffennol ac adrodd yn ôl i ni / *SLL shared the concern of a member of public about the anti social behavior that occurs regularly behind the Royal, Cutting Gardens and in front of CapT garage. We agreed to put a message on Facebook informing the public about the behaviour and to inform the residents of the area to phone 101 every single time something happens. Mr explained that she has enquired after the details of the new PCSO but there's no info as of yet. AJ agree to ask Cricieth TC how they dealt with anti social behaviour in the past and will report back to us.***

11. **Adroddiadau/ reports**
    10.1 Sbarduno Stryd Fawr : Eglurwyd i'r cynghorwyr newydd beth yw Marchnad Tref Cocos, a'r hyn mae Sbarduno Stryd Fawr yn ei wneud. Eglurodd SLL ei bod wedi sgwennu llythyr yn cefnogi cais grant Deudraeth Cyf i wneud newidadau i'r adeilad er lles y Dref WErdd. / *Marchnad Tre Cocos and Sbarduno Stryd Fawr was explained to the new councillors. SLl explained that she has written a letter of support to Deudraeth Cyf's grant application to renew the back of the building for the benefit of y Dref WErdd.*
    10.2 Cyfarfod Zoom Siân : Eglurodd SLL yn fras yr hyn a ddeallodd am y cyfarfod Zoom efo cynghorau tref / plwyf Perthyn, nos Fercher Tachwedd 6ed. Trafodwyd y polisi iaith y cyngor a phryder am effaith codi mwy o stadau tai ar sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardal. Cytunwyd i yrru pob gwybodaeth gan SLl ymlaen i bawb cyn penderfynu i ymuno â Perthyn neu beidio. / *SLL briefly explained the content of the zoom meeting of Perthyn councils Wednesday evening 6/11/24. The council's language policy was*

*discussed and the concern of the possible effects future planning  applications could have on the Welsh language (re : estates). SLl agreed to sent forward all information on the issue to all councillors before deciding to joining Perthyn or not.*

10.3 Cyfarfod Grŵp Cynefin a Tai Teg yn y Neuadd 23/10/24 : Mynegodd MR, SLl, SM a GVJ eu bod yn eithaf hapus efo sut aeth y cyfarfodydd, ond nododd NJ bod rhai o'r trigolion yn dal yn ddryslyd os nad siomedig parthed eglurder ar sut i ymrestru. Cytunodd SLl gysylltu efo Gwyndaf Williams Grwp Cynefin i ofyn am yr union linc i'r gwaith papur cywir. / *Mr, SLl, SM and GVJ expressed that they were quite content with how the meetings went. NJ expressed that some of the resident are still confused and disappointed with the lack of clarity re : registering on the housing list. SLl agreed to ask Gwyndaf Williams Grwp Cynefin for a direct link to the correct document. Will share on FAcebook.*

**11. Materion Caeedig / closed matters**


11.1 Diweddariad ar y treibiwnal

11.2 Materion staffio.

Penderfynwyd cloi allan y wasg a'r cyhoedd i drafod y mater yma gan ei fod yn debygol y datgelid gwybodaeth eithredig fel y'i ddiffinir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. (Unfrydol)

*It was decided to exclude the press and public from the meeting during the discussion of this item as it was likely that exempt information as defined in Part 4, Schedule 12A of the Local Government Act 1972 would be disclosed. (unanimous)*

**Arwyddwyd/Signed**



***Cadeirydd/Chairperson*** ***Dyddiad/Date 11.12.24***